No.

# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, R.E. Godfrey, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, N.B. Marshallsea, J.M. Norman a E. Penn.

Aelodau cyfetholedig: L. Barrowclough (Rhiant-lywodraethwr – Sector Cynradd), R. Morteo ((Yr Eglwys yng Nghymru) a Dr. M. Price (Yr Eglwys Gatholig)

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, Dr. I.J. Johnson a E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 432 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 433 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Y Cynghorydd W. Gilligan.

## 434 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a ailgynullwyd ar 6 Medi, 2022 a'r cyfarfod arferol, y ddau a gynhaliwyd ar 6 Hydref, 2022, fel cofnod cywir.

## 435 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

436 STRATEGAETH GYFALAF DDRAFFT 2023/24 A CHYNIGION RHAGLEN GYFALAF GYCHWYNNOL 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 6 Hydref 2022 fel y ceir o fewn yr agenda gan y Rheolwr Cymorth Cyllid.

Yn dilyn ymholiad gan yr Is-gadeirydd, dywedodd y Rheolwr Cymorth Cyllid na ddarparodd Llywodraeth Cymru’r costau llog ar gyfer benthyca heb gymorth, ac felly roedd angen i'r Cyngor dalu'r costau hyn tra hefyd yn sicrhau eu bod yn fforddiadwy.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, siaradodd y Cynghorydd Franks gerbron y Pwyllgor a gofynnodd am fwy o wybodaeth am leoliad safleoedd ailddatblygu arfaethedig ar gyfer ysgolion cynradd St. Richard Gwyn a Sili.  Mewn ymateb, pwysleisiodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod y cynigion hyn yn y broses bidio ar hyn o bryd ac nad oedden nhw wedi'u cwblhau eto, ond dywedodd eu bod yn debygol o aros ar safleoedd presennol y ddwy ysgol, heb unrhyw safleoedd eraill wedi'u nodi.

Eglurodd Arweinydd y Cyngor ymhellach, er bod y cynnig i ailddatblygu St Richard Gwyn yn cael ei symud ymlaen, nad oedd gan y lleill o fewn cylch gwaith y Pwyllgor statws ar hyn o bryd, ac felly nid oedd ganddynt safleoedd na manylion pellach i adrodd arnynt.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a’r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu:

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi Cyfeirnod y Cabinet a Strategaeth Gyfalaf Ddrafft 2023/24 atadol a Chynigion Rhaglen Gyfalaf Cychwynnol 2023/24 – 2027/28.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet a’r adroddiad ar Raglen Gyfalaf Gychwynnol y Cyngor ar gyfer 2023/24 i 2027/28 a Cheisiadau Cyfalaf.

437 STRATEGAETH ARIANNOL 2022/23 AC ADNEWYDDU’R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 6 Hydref 2022 fel y ceir o fewn yr agenda gan y Rheolwr Cymorth Cyllid.

Yn dilyn cwestiwn gan y Cynghorydd Penn, dywedodd y Rheolwr Cymorth Cyllid, er ei bod yn ddefnyddiol bod gan y Cyngor lefel dda o gronfeydd wrth gefn i wynebu’r pwysau cost sylweddol sydd i ddod, dim ond unwaith yr oedd modd defnyddio’r cronfeydd hyn, ac nid yn barhaus.

Yn dilyn hynny, gofynnodd y Cadeirydd pa ffurf y gallai fod ar unrhyw bwyso posib ar Lywodraeth Cymru ar gyfer setliad priodol.  Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd fod Arweinwyr Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru yn cyfarfod yn rheolaidd, bob pythefnos ar hyn o bryd, i drafod y mater hwn yn fanwl.  Dywedodd

fod Awdurdodau Lleol Cymru, gan fod Llywodraeth Cymru'n derbyn ei chronfeydd gan Lywodraeth y DU, wedi lobïo ar lefel y DU ar y cyd trwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), ond yr arwyddion oedd y byddai setliad Llywodraeth Cymru yn wael. Byddai disgwyl i Lywodraeth Leol wneud toriadau cyffredinol ac felly pan fyddai cynigion cyllidebol yn cael eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu, byddai dewisiadau anodd i'w gwneud. Dywedodd fod Awdurdodau Lleol ledled Cymru yn yr un sefyllfa ariannol heriol.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig ar Strategaeth Ariannol 2023/24 a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar ragdybiaethau'r Strategaeth Ariannol a wnaed ar gostau a chyllid yn y diweddariad o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

438 DIWEDDARIAD AR FUDDIANNAU CYMUNEDOL A CHANLYNIADAU CYNALIADWYEDD BAND B Y RHAGLEN CYMUNEDAU CYNALIADWY AR GYFER DYSGU (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet ar 20 Hydref 2022 fel y ceir o fewn yr agenda gan y Rheolwr Prosiect dros Strategaeth.

Ychwanegodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau fod gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth bellach yn dangos buddion cymunedol prosiectau yn y rhaglen.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, tynnodd yr Arweinydd sylw at y gwaith arloesol a phenigamp a wnaed o ran buddion cymunedol dan y rhaglen. Dywedodd fod y tîm wedi mwy na threblu targedau Llywodraeth Cymru ar y prosiect, ac esboniodd fod sgiliau o fewn cwmnïau dan gontract yn cael eu defnyddio i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i gymunedau mewn modd na welwyd ei debyg o'r blaen. Roedd y buddion yn cynnwys creu cyfleoedd gwaith, hyfforddiant a phrofiad gwaith, a defnyddio busnesau adeiladu lleol.

Canmolodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg y dull cyfannol a ddefnyddiwyd ar gyfer adeiladu a datblygu dan y rhaglen, a oedd yn cwmpasu'r holl gyfleoedd a rhanddeiliaid fel bod yr effaith mor eang â phosibl. Diolchodd i'r Swyddogion a fu'n rhan o'r gwaith caled ar y cynllun.

Yn dilyn ymholiad gan y Cadeirydd ynghylch targedau a rhwymedigaethau carbon Sero Net y rhaglen, dywedodd y Rheolwr Prosiect dros Strategaeth mai'r Cyngor oedd yr Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i gyflawni'r model Sero Net yn Ysgol Gynradd Trwyn y De. Roedd y Cyngor yn adeiladu ar y model hwnnw ac yn ei gyflwyno i ysgolion newydd yn cael eu datblygu. Roedd yr ysgolion hyn i gyd yn bwrw eu targed a ymgorfforwyd ar gyfer 2022. Roedd Ysgol y Deri yn gwella ar y

targed a ymgorfforwyd, ac yn rhagori ar y gofynion. Cafodd perfformiad yn erbyn targedau ei fonitro ac yn cael sylw gydag ysgolion i sicrhau bod targedau'n cael eu bwrw'n barhaus.

Adleisiodd yr Is-gadeirydd sylwadau blaenorol yn llongyfarch y Swyddogion ar fuddion cymunedol y rhaglen, ac yn enwedig ymwneud pobl ifanc â gwaith adeiladu fel adeiladu cyfalaf cymdeithasol yn lleol.

Yn dilyn hynny, tynnodd y Cynghorydd Penn sylw at y mesurau ecolegol oedd yn cael eu cynnig ar gyfer safle newydd Ysgol y Deri fel enghraifft gadarnhaol o sut y gallai ysgolion ddelio â'u heffaith amgylcheddol. Ar y pwynt hwn, cyfeiriodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau'r Pwyllgor at wybodaeth ar wefan y Cyngor ynglŷn â gwaith a wnaed gan y Cyngor ar gadw ecoleg Bro Morgannwg, fel rhan o'r rhaglen a thu hwnt.

O ran y bwriad i ehangu Ysgol y Deri, gofynnodd y Cadeirydd a oedd effaith amgylcheddol adeiladu safle newydd, a theithio ychwanegol i ddisgyblion ac athrawon yn gweithio yn erbyn mesurau diogelu'r amgylchedd. Mewn ymateb, esboniodd y Pennaeth Strategaeth, Dysgu Cymunedol ac Adnoddau, gan mai darpariaeth ar draws Cymru oedd y datblygiad arfaethedig hwn, y byddai'n golygu teithio ychwanegol i ddisgyblion mewn unrhyw leoliad. Dywedodd fod gwaith hefyd yn cael ei wneud i gryfhau'r ddarpariaeth canolfan Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) o fewn ysgolion prif ffrwd, er mwyn osgoi teithio i ysgolion arbenigol, lle bo modd.

Dywedodd y Rheolwr Prosiect dros Strategaeth fod teithio i ddisgyblion wedi'i ystyried wrth gynllunio'r datblygiad, gan gynnwys Asesiad Trafnidiaeth yn canolbwyntio ar leihau teithio mewn ceir preifat, ond bod cyfyngiadau i hyn o ran y cyfleusterau sydd eu hangen ar gyfer disgyblion, a chyfleoedd teithio llesol. Rhoddodd wybod i'r Pwyllgor am nifer o elfennau datblygiad newydd Ysgol y Deri oedd yn rhoi sylw i waith adeiladu, draenio, gwresogi ac effeithlonrwydd ynni cynaliadwy.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Godfrey, rhoddodd y Rheolwr Prosiect dros Strategaeth ddiweddariad i'r Pwyllgor ar y gwaith o ailddatblygu Ysgol Gynradd St. Nicholas a dywedodd fod safleoedd amgen wedi'u hadolygu. Cynhaliwyd chwiliad eang am safleoedd amgen o fewn y dalgylch, fodd bynnag, byddai lleoliadau gwledig y rhain wedi creu cyfyngiadau. Byddai safleoedd y tu allan i ffiniau aneddiadau Sain Nicolas hefyd wedi creu ystyriaethau cynllunio. Dywedodd fod mannau parcio i staff a mannau gollwng a chasglu disgyblion wedi'u symud o fewn safle'r ysgol yn y dyluniadau arfaethedig, er mwyn lleddfu'r pwysau ar ffyrdd cul sy'n cael mynediad i'r ysgol. Penderfynwyd mai'r safle presennol oedd â'r cyfyngiadau lleiaf a'i fod yn fwy derbyniol yn nhermau cynllunio.

Ar ôl ystyried y cyfeiriad a'r adroddiad, gwnaeth y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – Y dylid nodi cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Diweddaru atodedig ar Fuddiannau Cymunedol a Chanlyniadau Cynaliadwyedd Band B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys cyfeirnod y Cabinet a'r adroddiad Diweddaru ar Fuddiannau Cymunedol a Chanlyniadau Cynaliadwyedd Band B y Rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu.

439 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 30 MEDI 2022 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Rheolwr Cymorth Cyllid a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2022. Dangoswyd manylion fesul cynllun yn Atodiad 1.

Rhoddodd Atodiad 2 grynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth o gymeradwyaeth yng nghyfarfod y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 30 Medi 2022, gan gynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt o fewn yr adroddiad.

Nododd yr adroddiad unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod.

Roedd cynlluniau cyfalaf yn wynebu heriau oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu bod angen ail-drefnu neu ail-dendro cynlluniau, gan arwain at oedi i brosiectau. Roedd swyddogion prosiect hefyd yn adrodd amseroedd aros hir ar gyfer deunyddiau a phrinder sgiliau mewn rhai meysydd.

ARGYMHELLWYD –

(1) Nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

(2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad.

(3) Nodi'r defnydd o Bwerau Argyfwng fel y manylir yn yr atodiad i'r adroddiad.

(4) Bod y newidiadau canlynol i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod yn cael eu nodi:

- Goleuadau Stryd ar hyd Frampton Lane - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn £5k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, i'w ariannu gan gyfraniad arian A106.
- Pont Llyfrgell Dinas Powys – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £2k i'w hariannu gan gyfraniad refeniw amgylchedd a thai.
- Ardal Chwarae Cosmeston – Trosglwyddo £13k o gynllun Ardal Chwarae Cosmeston i Gynllun Ardal Chwarae Porthceri.
- Gerddi'r Cnap - prosiect dŵr a bioamrywiaeth – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £6k, i'w hariannu gan gyfraniad arian A106.

- Ysgol Sant Curig - Adnewyddu goleuadau - Dwyn ymlaen £56k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Adolygu newidiadau i gynlluniau trwyddedau parcio - Dwyn ymlaen £55k i raglen Gyfalaf 2023/24.
- Canolfan Hamdden Penarth - Ffenestri Gwydr Lefel Uchel - Dwyn ymlaen £1,546k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cronfa Partneriaeth Adfywio'r Barri - Dwyn ymlaen £689k i Raglen Gyfalaf 2022/23.
- Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol Murchfield - Dwyn ymlaen £178k i Raglen Gyfalaf 2023/24.

Rheswm dros yr argymhellion

(1-4) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad i roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

440 CRYNODEB O GANLYNIADAU AROLYGIAD ESTYN AR GYFER TYMOR YR HAF 2022 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Bartner Gwella ar gyfer Consortiwm Canolbarth y De (CCD). Roedd Estyn yn arolygu ansawdd a safonau mewn addysg ledled Cymru. Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, roedd fframwaith arolygu diwygiedig wedi'i ddatblygu gan Estyn ar gyfer peilota gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCD) yn ystod tymhorau gwanwyn a haf 2022. Yn nhymor yr haf, arolygwyd pedair ysgol gynradd (Ysgol y Ddraig, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Llanbedr-y-fro, Ysgol Iolo Morgannwg ac Ysgol Gynradd Sili). Nid oedd angen mesurau dilynol statudol (Gwelliant Sylweddol a Mesurau Arbennig) nac Adolygiad Estyn ar unrhyw un o'r ysgolion hyn.

Yn dilyn ymholiad gan y Cynghorydd Goodjohn, cytunodd y Prif Bartner Gwella y byddai'n ystyried sut y gallai enghreifftiau o ymarfer diddorol neu arloesol a nodwyd mewn ysgolion gan Estyn gael eu bwydo'n ôl i'r Pwyllgor yn y dyfodol. Mewn ymateb i ymholiad gan yr Is-gadeirydd, dywedodd fod staff o ysgolion a arolygwyd wedi rhoi eu hadborth ar y fframwaith arolygu newydd, ac roedd rhai wedi canfod bod y cyfnod hysbysu byrrach cyn archwiliad yn cael ei werthfawrogi a'i fod yn ddefnyddiol. Yn ogystal, roedd rhai staff wedi gwerthfawrogi'r symudiad i ffwrdd o farn gyfansymiol a thuag at fwy o werthuso ac adborth ar eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu. Roedd ysgolion hefyd wedi gwerthfawrogi cael mewnbwn i ddyluniad y fframwaith ei hun.

Croesawodd yr Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Gymraeg, y Cynghorydd Marshalsea a'r Cynghorydd Godfrey y cyfnod hysbysu byrrach gan ei fod yn rhoi adlewyrchiad triw o weithgareddau ysgol ac yn creu cyfnod byrrach o straen a gorbryder perfformiad dwysach i staff. Ar eu cais, cytunodd y Prif Bartner Gwella y byddai'n trosglwyddo i'r bedair ysgol a arolygwyd longyfarchiadau y Pwyllgor ar ganlyniadau'r arolygiadau.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach gan y Pwyllgor,

ARGYMHELLWYD – Nodi canlyniadau arolygiadau ysgolion cynradd Ysgol y Ddraig, Llanbedr-y-fro, yr Eglwys yng Nghymru, Ysgol Iolo Morganwg a Sili, a arolygwyd yn ystod tymor yr haf.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

441 DIWEDDARIAD AR YMGYSYLLTU A DILYNIANT IEUENCTID (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Reolwr Ymgysylltu'r Gwasanaeth Ieuenctid a'r Swyddog Arweiniol dros Gynhwysiant Cymdeithasol. Rhoddon nhw wybod i'r Aelodau am y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ym Mro Morgannwg yn ogystal â diweddariadau i'r agenda NEET gan Lywodraeth Cymru a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn lleol ym Mro Morgannwg.

Tynnodd y data sylw at y ffaith bod nifer y bobl ifanc NEET wedi lleihau ym Mlynyddoedd Cwricwlwm Cenedlaethol (BCC) 12 a 13, tra'i bod yn parhau'n is na chyfartaledd Cymru ar gyfer BCC 11 a 13. Roedd cynnydd 0.10% yng nghanran y bobl ifanc NEET ym Mlwyddyn 11 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol:

- Pobl ifanc NEET ym mlwyddyn 11 yn y Fro = 1.00%, dan gyfartaledd Cymru sef 1.60%;
- Pobl ifanc NEET ym mlwyddyn 12 yn y Fro = 0.40%, yn gyfwerth â chyfartaledd Cymru sef 0.40%;
- Pobl ifanc NEET ym mlwyddyn 13 yn y Fro = 2.25%, dan gyfartaledd Cymru sef 2.29%.

Roedd y gostyngiad yn nifer y bobl ifanc NEET yn y Fro wedi deillio o bartneriaethau cryf gyda Gyrfa Cymru, adrannau'r Cyngor, addysg, darparwyr hyfforddiant a phrosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (CGE).

Yn dilyn cwestiynau gan yr Is-gadeirydd, dywedodd y Rheolwr Ymgysylltu fod ysgolion Bro Morgannwg yn nodi pobl ifanc mewn perygl o fod yn NEET ôl-16, a bod y Gwasanaeth Ieuenctid yn ymyrryd wedyn i gefnogi dysgwyr o'r fath. Dywedodd fod nodau'r rhaglen atal NEET yn glir, bod angen i bobl ifanc optio i mewn i'r rhaglen, a bod angen caniatâd rhieni. Darperir hyfforddiant achrededig amgen gan y gwasanaeth lle mae gan ddysgwyr broblemau yn benodol mewn gwersi ysgol, gyda'r nod o leihau ac atal gwaharddiadau o'r ysgol. Mae ysgolion hefyd yn cael eu cefnogi i gynnig darpariaeth dysgu amgen ar y cyd â phartneriaid masnachol a'r trydydd sector.

Dywedodd y Rheolwr Ymgysylltu fod cyfranogwyr yn cael eu cefnogi drwy gydol blynyddoedd 10 ac 11 ac y cysylltir â nhw ar ôl i flwyddyn 11 orffen i'w cefnogi i symud ymlaen o'r ysgol. Roedd yr holl bobl ifanc yn ymwneud â'r prosiect, cyn ac ôl-16, yn gweithio tuag at gynllun gweithredu unigol, ac yn ystyried y rhaglen yn fecanwaith cymorth cadarnhaol. Lle na fyddai pobl ifanc yn ymgysylltu â'r rhaglen,

roedd clybiau ar ôl yr ysgol a chlybiau ieuenctid yn rhoi cyfle i weithwyr ieuenctid feithrin perthynas bositif gyda nhw, gyda'r bwriad iddyn nhw wedyn dderbyn cymorth yn yr ysgol. Pe na bai hyn yn llwyddiannus, gellid mynd ati'n gydweithredol i gefnogi person ifanc, a allai gynnwys y Gwasanaeth Lles Ieuenctid, y Tîm Digartrefedd Ieuenctid neu Swyddogion Gorfodi'r Gyfraith. Cadarnhawyd bod dadansoddiad o gyfranogwyr yn ôl rhyw wedi'i atodi i'r adroddiad ac er bod ffigyrau ychydig yn is na'r targed i gyfranogwyr benywaidd, yn gyffredinol roedd canlyniadau'r rhaglen yn dda.

Yn dilyn ymholiadau gan y Cynghorydd Goodjohn, dywedodd y Swyddog Arweiniol dros Gynhwysiant Cymdeithasol a Lles fod darpariaeth ar gyfer pobl ifanc nad ydynt yn cael eu haddysgu yn yr ysgol yn cynnwys sefydlu gwasanaeth galw heibio wythnosol yn hwb YMCA yn y Barri lle gallai pobl ifanc o gefndiroedd o'r fath gael mynediad at gymorth. Ychwanegodd y Rheolwr Ymgysylltu y gallai pobl ifanc addysg ddewisol yn y cartref gael mynediad at gymorth drwy Athro Lles a Chyrhaeddiad y Cyngor a'i dîm, a fyddai'n ymgysylltu â theuluoedd cyn gynted ag y gwnaethon nhw roi gwybod i ysgol eu bod yn barod i addysgu gartref. Sicrhawyd y byddai gan y plentyn becyn addysg y byddai'n ei dderbyn gartref, a bod y teulu yn cael cymaint o gymorth â phosibl. Dywedodd, os nad yw pobl ifanc yn gallu cynnal presenoldeb llawn amser mewn ysgol brif ffrwd, y gallai'r gwasanaeth fod yn rhan o gynigion mwy pwrpasol o hyfforddiant neu leoliadau y tu allan i'r sir gydag ysgolion annibynnol. Cefnogwyd dysgwyr â materion perthnasol drwy eu hatgyfeirio at Banel Iechyd Meddwl Emosiynol Cymdeithasol i naill ai gynnal eu presenoldeb mewn addysg brif ffrwd neu â lleoliadau arbenigol, os yn briodol.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, tynnodd y Cynghorydd Johnson sylw'r Pwyllgor at atodiad B yr adroddiad, ac at y ffaith bod y Cyngor wedi perfformio'n well na'r holl fuddiolwyr eraill yn ardal Dwyrain Cymru yn ei raglen Ysbrydoli i Weithio. Mewn ymateb i ymholiadau dilynol gan y Cynghorydd Johnson, dywedodd y Rheolwr Ymgysylltu fod y berthynas gyda Llamau wedi bod yn gadarnhaol iawn wrth gyrraedd pobl ifanc ymhellach o'r farchnad swyddi. Ychwanegodd, er bod y gwasanaeth yn wynebu heriau sydd i ddod, er enghraifft newidiadau mewn ffynonellau ariannu, fod gwaith ar y cyd yn mynd rhagddo gydag asiantaethau partner fel Gyrfa Cymru a'r Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid i sicrhau dyfodol llewyrchus.

ARGYMHELLWYD –

(1) Y dylid nodi’r cynnydd a wnaed yn ystod y 12 mis diwethaf o roi’r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid ar waith.

(2) BOD y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn derbyn adroddiad diweddaru cynnydd pellach ymhen 12 mis.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod.

(2) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am waith a chynnydd ar weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid a'r agenda NEETs.